

Adders are Amazing! Gwiberod Gwych!

19. CERDDI GWIBEROD

CYFLWYNIAD

Mae barddoniaeth yn ffordd wych o helpu plant i archwilio'r hyn y maent yn ei wybod, a sut y maent yn teimlo am wiberod. Fe welsom ni, mewn llawer o achosion, lle'r oedd canfyddiadau cychwynnol yn eithaf negyddol ac anghywir; roedd yr ymarfer hwn yn gymorth i'r plant fyfyrion a meddwl yn fwy gofalus am wiberod. Gwnaethom y gweithgaredd hwn gyda grŵp o blant 11 oed a oedd yn meddwl mai llofruddwyr difeddwl oedd gwiberod, yn hela ddydd a nos! Felly gall hwn fod yn weithgaredd gwych i asesu faint y mae plant hŷn yn ei wybod go iawn am wiberod, a gellir ei ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer diwrnod o weithgareddau. Neu gallech ei wneud ar ddiwedd y dydd i weld sut y mae eu canfyddiadau wedi newid.

DEFNYDDIAU:

- Papur gwyn (o leiaf tri darn o bapur i bob un sy'n cymryd rhan)
- Pensiliau, pennau a phensiliau lliw
- Enghreifftiau o farddoniaeth neidr a cherddi acrostig - rydym yn argymhell "The Lost Words" (Robert MacFarlane a Jackie Morris, cyhoeddwyd gan Hamish Hamilton) – mae gan lawer o ysgolion gopi o'r llyfr hwn yn eu llyfrgell.


GWNEWCH!

1

Cyflwynwch y syniad o farddoniaeth acrostig (defnyddio llythrennau gair i ddechrau pob llinell yn y gerdd) i'r plant. Mae yna gerdd hyfryd am wiberod yn "The Lost Words" a gallech ei defnyddio fel enghraifft.


2

Ar ôl rhoi enghreifftiau o gerddi iddynt, gofynnwch iddynt ysgrifennu'r holl eiriau sy'n dod i'w meddwl yn ymwneud â gwiberod neu nadroedd. Defnyddiwch lythrennau'r gair 'gwiber' i'w harwain - geiriau yn dechrau gyda 'G', 'W' ac ati.



GWNEWCH!

3 Ar ddarn o bapur drafft, gofynnwch iddynt ysgrifennu'r gair 'GWIBER' mewn llythrennau mawr, yn fertigol, i lawr ochr chwith y dudalen, gan adael digon o le. Gallant ddechrau arbrofi gyda'u cerdd.



4 Unwaith y byddant yn hapus â'u cerdd, gallant ysgrifennu fersiwn taclus ac ychwanegu llun os ydynt yn dymuno. Wedi gwneud rhywfaint o waith ymgysylltu, gofynnwch iddynt ddarllen eu gwaith allan i weld os ydynt yn dal i gytuno â'r hyn y maent wedi ei ysgrifennu, neu ydynt yn gwybod mwy am wiberod nawr? Ydyn nhw'n teimlo'n wahanol nawr o gymharu â phan ysgrifennwyd y gerdd? Ydyn nhw'n gallu ysgrifennu cerdd arall? Pwynt trafod gwych!

